

Bandiau cyflog presennol

12 Rhagfyr 2013

Yn dilyn fy e-bost dyddiedig 6 Rhagfyr 2013, rwyf bellach mewn sefyllfa i ymateb i'ch cais am wybodaeth dyddiedig 2 Rhagfyr 2013:

1. bandiau cyflog presennol (o 1/4/13 ymlaen) ar gyfer staff Swyddfa Archwilio Cymru ar bob graddfa, gan gynnwys eu cyflogau targed a'u cyflogau mwyaf

Gweler y ddogfen amgaeedig.

2. manylion y dyfarniad cyflog o 1/4/13

- Cydgrynhoi'r taliad £150 a wnaed yn 2012 ar gyfer staff Band 1 a hyfforddeion technegwyr archwilio yn yr ystodau cyflog;
- Parhau i dalu cynyddrannau tâl yn unol â'r cytundeb tâl blaenorol, gan arwain at gynnydd o 4.43% ar gyfartaledd ar gyfer staff cymwys, o fewn ystod rhwng 7.89% (Hyfforddeion) a 3.51% (Cyfarwyddwyr). Cynnydd hyd at y gyfradd darged ar gyfer pob pwynt tâl 1.07%;
- Cyfandaliad amhensiynadwy un-tro o £400 ar gyfer pob cyflogai parhaol er mwyn prynu hawl staff i'r cynllun ad-dalu band eang.

3. manylion % y marciau perfformiad ar gyfer pob prif raddfa – ar gyfer y cyfnod adrodd diweddaraf lle mae marciau'n hysbys

Nid yw'r system Cynllun Arfarnu Perfformiad yn defnyddio system farciau, ond mae'n cydnabod staff o dan y meini prawf canlynol – amcanion a gyflawnwyd/amcanion nas cyflawnwyd. Roedd 100% o'r staff a gafodd eu harfarnu hyd at 31 Mawrth 2013 wedi cyflawni'r amcanion, ac felly wedi ennill codiad cynyddrannol ar 1 Ebrill 2013.

4. manylion unrhyw gynllun lesio ceir, cynllun lwfans teithio, neu unrhyw fanteision ariannol eraill ac eithrio cyflogau neu bensïynau

- Mae pob aelod o staff sy'n gweithio ym meysydd Archwilio Ariannol neu Archwilio Perfformiad ac yn cael eu disgrifio'n weithwyr symudol yn gymwys i gael car ar les neu lwfans teithio, ar yr amod bod eu car yn bodloni meini prawf cymhwysedd y cynllun. I fodloni'r meini prawf, mae'n rhaid i'r car fod yn llai na 7 mlwydd oed, bod ag allyriadau CO2 o dan 130g, a chael ei gofrestru yn enw'r unigolyn. Mae lwfans teithio yn cael ei dalu ar gyfer bandiau cyflog 3-6 a hyfforddeion - £4,400 y flwyddyn a bandiau cyflog 7-11 - £5,160 y flwyddyn
- Prynu neu werthu hyd at bum diwrnod o wyliau blynyddol ar ben-blwydd blwyddyn wyliau'r cyflogai
- Talebau gofal plant (sy'n ddull effeithlon o ran treth o dalu am sawl math o ddarpariaeth gofal plant). Caniateir cyfanswm gwerth £2,916 y flwyddyn
- Cynllun benthyg beicio i'r gwaith – gall staff nad ydynt yn gymwys i dderbyn car ar les neu lwfans teithio wneud cais am fenthyciad di-log hyd at £1,000 i brynu beic i deithio i'r gwaith
- Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn talu tanysgrifiadau proffesiynol sy'n cael eu cydnabod yn danysgrifiadau angenrheidiol i'r busnes. Fe'u cyfyngir i un aelodaeth fesul cyflogai
- Mae Swyddfa Archwilio Cymru hefyd yn darparu'r Rhaglen Cymorth i Weithwyr, sef gwasanaeth ffôn cyfrinachol, di-dâl sydd ar gael i holl staff Swyddfa Archwilio Cymru unrhyw amser o'r dydd neu'r nos, ar unrhyw ddiwrnod o'r flwyddyn, sy'n cynnwys:

- Gwybodaeth gyffredinol a gwasanaethau Cyngor ar Bopeth (yn cynnwys materion defnyddwyr a chyngor ar addysg neu breswyllo)
- Cyngor ariannol
- Cyngor cyfreithiol
- Gwybodaeth am ofal plant a dibynyddion
- Cwmsela, dros y ffôn ac wyneb yn wyneb

Nid wyf wedi gwneud cais am unrhyw esemptiadau, ond os bydd gennych unrhyw gŵyn am y ffordd yr wyf wedi ymdrin â'ch cais, anfonwch e-bost ataf neu ysgrifennwch ataf.

Mae croeso i chi gysylltu â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau.

Yn gywir

Ian Phillips